CLECS O'R CLYBIAU

Clwb Gwawr Maelog

Mae Clwb Gwawr Maelog, yn cwrdd yn y Llew Coch, Llandyfaelog, Rhanbarth Caerfyrddin. Mae ganddo rhyw 23 aelod yn mwynhau amrywiaeth o weithgareddau – o ddawnsio bol, blasu gwin, saethyddiaeth, arddangosfa Techneg Bowen, gwneud pancws i 'rhowch gynnig arni'. Yn ystod y gaeaf maen nhw'n mwynhau diwrnod siopa a sioe yng Nghaerdydd, ac yn y gwanwyn – taith ddirgel.

Clwb Gwawr y Pennau

Merched mentrus Clwb Gwawr y Pennau, Rhanbarth Ceredigion, yn saethu – colomennod clai gobeithio!

Clwb Gwawr Clydau

Aelodau Clwb Gwawr newydd Clydau, Rhanbarth Penfro – yn barod am dymor diddorol. Croeso!

Clwb Gwawr Llangadog

Ar nos Iau 4 Medi, dechreuodd Clwb Gwawr Llangadog y tymor yng nghwmni Gemwaith Angel – pedair merch leol sydd wedi dechrau busnes gwneud gemwaith. Cawsom noson hwyliog iawn, gydag ambell aelod yn manteisio ar y cyfle i brynu anrheg iddi hi ei hun – gwobr am weithio mor galed yn ceisio difyrru'r plant yn ystod tywydd diflas yr haf! Cyswllt: Ann Richards.

CLYBIAU GWAWR Y GOGLEDD – BETH AM DIPYN O'CH HANES?

Clwb Gwawr Cennin

Camu nôl mewn amser oedd nod Clwb Gwawr Cennin, Rhanbarth Ceredigion, wrth iddynt fentro i Dregaron am noson o gerdded. Â Thregaron ar drothwy dathlu 400 mlwyddiant marwolaeth Twm Siôn Cati, lle gwell i ymweld ag e na Phorthyffynnon, man geni Twm. 'Dewch i Dregaron yn 2009' yw neges Dafydd Wyn Morgan, cydlynydd Cymdeithas Twm Siôn Cati, a thywysydd y daith gerdded hyfryd hon. Am fwy o fanylion cysylltwch â Dafydd ar 01974 298150 neu www.twmsioncati.co.uk

CLECS O'R CLYBIAU

Clwb Gwawr Efa

Clwb Gwawr Efa, Bangor yn 'mwynhau' noson o ddawnsio bol. Aa--AA!!!

Clwb Gwawr Ogwr

Yn nhymor yr haf bu Elliw Iwan o Ganolfan Mileniwm Cymru yn sgwrsio â Chlwb Gwawr Ogwr, Rhanbarth y De-ddwyrain. Ei nod oedd denu Cymry Cymraeg i fwynhau arlwy'r Ganolfan, ac meddai, 'I mi'n bersonol, Mrs Jones o Sir Fôn, neu Gwenda o Geredigion yw ein cwsmeriaid pwysicaf! Rhaid denu'r Cymry yma, i fwynhau sioeau o bob math, ac i ddefnyddio'r Ganolfan. Dyna pam y neidiais ar y cyfle i fynd i dafarn yn Aberogwr yn yr haf i sgwrsio gyda chriw hwyliog Clwb Gwawr Ogwr. Roedd yn wych gweld gymaint o griw yno. Roedd hyn yn dangos i mi'n glir pa mor llwyddiannus a phwysig yw Clybiau Gwawr, yn enwedig mewn ardal lle mae'r Cymry wedi eu gwasgaru ar hyd y fro.'

Pam na wnewch chi drefnu trip o'ch Clwb Gwawr chi yno? Mae cynigion da ar gyfer grwpiau. Ceir manylion ar y wefan www.yganolfan.org.uk

Cangen Llanfair Caereinion

Megan Roberts o gangen Llanfair Caereinion yn derbyn 'Halen y Ddaear'gan Alwyn Humphreys ar raglen 'Wedi 3', sydd i'w darlledu yn hwyrach yn y flwyddyn

Cangen Rhosmeirch

PENBLWYDD YN DDEUGAIN

Dathlodd Cangen Rhosmeirch, Ynys Môn, ei phenblwydd yn ddeugain ar Fedi 4ydd eleni. Roedd pump o'r aelodau gwreiddiol yn bresennol yn y parti. Yn y llun mae Mrs Morfudd ac Emmie Edwards yn torri'r deisen benblwydd, ac yn y cefndir gwelir Mrs Beti Owen a Mary Williams. Bu'n rhaid i'r pumed aelod, Mrs Jean Roberts, ymadael cyn tynnu'r llun.

Beth am feddwl am y wawr arall?

GWAWR

Nid ar wib y mae'n cribo
Yn dresi fry dros y fro,
I frwsh nad yw am frysio
Y rhoir tasg goreuro'r to,
Blewyn ar ael a welir
Yn glais ar y wybren glir,
'N twtio a dotio nes daw
Gwawl olau, gêl a hylaw
Yn llwydo yna'n lledu
Nes iddi ddal y nos ddu.
Cwlwm o blethi culion
Hynod eu hyd yw cnwd hon,
Dônt â'r lliw er deintio'r llan,
Hollt y wawr yw'r gwallt arian.

Kathleen Wood
(cangen Bro Radur)

Gwisg newydd

Gwisg newydd yr Archdderwydd, gydag ymddiheuriadau i'r brodwragedd am ddangos yr hen wisg yn y rhifyn diwethaf.

Bagiau duon

Bagiau duon byrnau silwair ar fferm John Pughe, Morben Mawr, Derwen Las ger Machynlleth. Mae'r neges yn glir -ond beth yw ei hystyr, a phwy a'i gadawodd?